**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL**
MERTHYR TYDFIL COUNTY BOROUGH COUNCIL

**YR ADRAN DYSGU**
LEARNING DEPARTMENT

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# CYLCH GORCHWYL IS-GRWPIAU / A NEU WEITHGOR FFORWM CYLLID YSGOLION MERTHYR TUDFUL

‘Llwyddiant i bob plentyn’ - ‘Success for every child’

Updated September 2022

# CYNNWYS


## Adran 1 Rheoliadau a Swyddogaethau Is-grwpiau / Gweithgor y Fforwm Ysgolion

**1.1 Cyffredinol**
**1.2 Swyddogaethau'r Is-grŵp/ Gweithgor**

## Adran 2 Cyfansoddiad

**2.1 Aelodaeth**
**2.2 Cyfnod Swydd**
**2.3 Arsylwyr**

## Adran 3 Cyfarfodydd a Thrafodion Is-grŵp/ Gweithgor y Fforwm Ysgolion

**3.1 Clerc y Fforwm**
**3.2 Cadeirydd ac Is-gadeirydd**
**3.3 Cyfarfodydd yr Is-grŵp / Gweithgor**
**3.4 Cofnodion y Cyfarfod**
**3.5 Cworwm**
**3.6 Eitemau'r Agenda**
**3.7 Cyfrinachedd**
**3.8 Datganiadau o Fuddiannau**
**3.9 Treuliau**

# FFORWM GYLLID YSGOLION MERTHYR TUDFUL IS-GRWPIAU / GWEITHGOR

# CYLCH GORCHWYL

## Adran 1 Rheoliadau a Swyddogaethau Is-grwpiau'r/ Gweithgor y Fforwm Ysgolion

## Allwedd

### 1.1 Cyffredinol

Yn ôl Adran 47A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, a fewnosodwyd gan Ddeddf Addysg 2002, roedd gofyn i bob awdurdod lleol yng Nghymru sefydlu corff a fyddai'n cael ei adnabod fel fforwm ysgolion. Adnabyddir y sefydliad fel y Fforwm Ysgolion (o hyn ymlaen cyfeirir ato fel 'y Fforwm'). Fe'i sefydlwyd yn unol â Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003.

Mae rôl a chyfrifoldebau'r Fforwm Ysgolion wedi cynyddu gryn dipyn ers iddo gael ei sefydlu yn 2003 ac felly er mwyn iddo weithredu'n effeithlon, mae'r fforwm yn ddibynnol ar is-grwpiau / gweithgorau er mwyn rhannu'r cyfrifoldebau ac er mwyn datblygu'r wybodaeth arbenigol sydd gan ei aelodau.

Gall y Fforwm Ysgolion sefydlu is-grwpiau / gweithgorau neilltuol er mwyn ystyried materion penodol os gwelir bod angen.

### 1.2 Swyddogaethau'r Is-grŵp/ Gweithgor

Mae'r Fforwm Ysgolion yn darparu dull o gyfathrebu rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac ysgolion Merthyr Tudful a thrwy ddefnyddio'r dull hwn o gyfathrebu gall yr awdurdod ymgynghori ynghylch ei swyddogaethau yn ymwneud â chyllid ysgolion a newidiadau i gynlluniau ariannol, yn cynnwys newidiadau i fformiwla gyllido a'r effaith debygol y gellir ei disgwyl gan newidiadau o'r fath.

Prif swyddogaeth yr is-grwpiau/ a neu'r gweithgorau yw ystyried materion penodol a darparu cyngor drafft ac argymhellion i'r fforwm. Bydd y Fforwm Ysgolion yn ystyried gwaith unrhyw is-grwpiau/ a neu weithgorau o'r math hwn ac yn gwneud penderfyniadau neu argymhellion i'r Awdurdod Lleol fel y gwelir yn briodol.

# Adran 2 Cyfansoddiad

## 2.1 Aelodaeth

Bydd aelodaeth yr Is-grwpiau/ Gweithgorau yn cynnwys 8 aelod wedi eu cymryd o aelodaeth y Fforwm Ysgolion.

Bydd aelodaeth yr is-grwpiau / Gweithgorau yn cynnwys 7 aelod ysgol ac 1 aelod nad sy'n dod o ysgol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Sector cynradd | 4 aelod |
| Sector uwchradd | 2 aelod |
| Sector arbennig | 1 aelod |
| Cynrychiolaeth gan aelod nad sy'n dod o ysgol | 1 aelod |

Mae Aelodaeth Ysgolion yn gymesur â'r cyfanswm o ddisgyblion sydd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

**Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir / Cynrychiolaeth Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg**

Pe na bai aelodaeth yr Is-grwpiau / Gweithgorau yn cynnwys cynrychiolydd o Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir / Cynrychiolaeth Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg bydd gwahoddiad yn cael ei estyn i'r cynrychiolydd priodol pan fod eitemau o ddiddordeb gael eu hystyried.

Bydd gan gynrychiolwyr o Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir / Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yr un hawliau pleidleisio ag aelodau eraill.

## 2.2 Cyfnod Swydd

Bydd pob aelod yn cael ei ethol neu ei benodi am gyfnod na fydd fel rheol yn para'n hirach na blwyddyn academaidd. Fel arfer bydd yr etholiad yn digwydd yn ystod y cyfarfod cyntaf, a gynhelir yn Nhymor yr Hydref.

## 2.3 Arsylwyr

Bydd y swyddogion canlynol hefyd yn aelodau arsylwi o'r is-grŵp ac yn darparu cefnogaeth dechnegol broffesiynol er mwyn cynorthwyo gyda'r ystyriaeth a gwaith y grŵp.

Y Rheolwr Rheoli Ysgolion yn Lleol a'r Rheolwr Adnoddau
Cyfrifydd Addysg

# Adran 3 Cyfarfodydd a Thrafodion Is-grŵp / Gweithgor y Fforwm Ysgolion

## 3.1 Clerc yr Is-grwpiau / Gweithgorau

Bydd yr Adran Ddysgu, Cyngor Sirol Merthyr Tudful, yn ymddwyn fel Clerc i'r Fforwm.

Bydd Clerc y Fforwm yn gyfrifol am gynghori'r Is-grwpiau / Gweithgorau ynghylch Rheoliadau sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Is-grwpiau / Gweithgorau, a phob mater sy'n ymwneud â chyllid ysgolion, trefnu cyfarfodydd, paratoi a chyhoeddi papurau, clercio a chofnodi cyfarfodydd, dosbarthu gwybodaeth sy'n ymwneud â chyfarfodydd, gweithredoedd a benderfynwyd arnynt, treuliau etc.

Bydd hysbysiadau o benodiadau, ymddiswyddiadau neu ddiswyddiadau o'r Is-grwpiau / Gweithgorau yn cael eu rhoi yn ysgrifenedig i'r Clerc.

Bydd swyddogion a enwebwyd, o'r Adran Ddysgu, yn gwireddu swyddogaethau'r Clerc i'r Is-grwpiau/ Gweithgorau dan arweiniad y Cyfarwyddwr Addysg a'r Pennaeth Cynllunio a Gwella Ysgolion.

## 3.2 Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Y Cadeirydd fydd yn llywyddu dros gyfarfodydd Is-grwpiau/ Gweithgorau'r Fforwm Ysgolion ac fel rheol bydd hefyd yn Is-gadeirydd i'r Fforwm Ysgolion.

Etholir y Cadeirydd yn ystod y cyfarfod cyntaf ac fel arfer bydd yn gwasanaethu am gyfnod na fydd yn para'n hirach na blwyddyn academaidd.

## 3.3 Cyfarfodydd yr Is-grŵp/ Gweithgor

Bydd yr Is-grwpiau / a neu'r Gweithgorau'n cyfarfod yn unol â'r ffrydiau gwaith a atgyfeiriwyd atynt gan y Fforwm llawn. Gall cyfarfodydd ychwanegol gael eu trefnu gan y Clerc mewn ymgynghoriaeth â'r Cadeirydd.

Cynhelir gwaith yr Is-grŵp / a neu'r Gweithgorau yn breifat. Bydd Cadeirydd yr Is-grŵp / a neu'r Gweithgor yn adrodd yn ôl ar y Fforwm ynghylch yr holl ystyriaethau a gyflawnwyd gan y grŵp ac yn nodi canlyniad pob cyfarfod.

Darperir adborth ychwanegol gan Gadeirydd yr Is-grŵp / a neu'r Gweithgor Gydfforymau Penaethiaid lle gwelir hynny'n briodol.

## 3.4 Cworwm

Cworwm yr Is-grwpiau / a neu'r Gweithgor bydd 50% o'r aelodau, hynny ydy, o leiaf pedwar aelod.

## 3.5 Cofnodion y Cyfarfodydd

Anfonir cofnodion y cyfarfod diwethaf ar ffurf drafft, o fewn 10 diwrnod i'r cyfarfod, er mwyn gallu derbyn sylwadau ynghylch cywirdeb a chyflawnder.

Os fyddwn yn derbyn sylwadau, darperir fersiwn wedi ei ddiweddaru gan y Clerc, ynghyd â phapurau'r cyfarfod, 5 diwrnod cyn y cyfarfod nesaf yn crybwyll yr adrannau a ddiwygiwyd.

Cytunir y cofnodion swyddogol yn ystod y cyfarfod nesaf gydag unrhyw welliannau'n dilyn hynny'n cael eu hanfon at bawb wedi'r cyfarfod.

## 3.6 Eitemau Agenda

Cytunir ar raglen waith ar gyfer y flwyddyn yn ystod y Cyfarfod Blynyddol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Wedi hynny, anfonir agenda a phapurau at yr holl aelodau a'r arsylwyr o leiaf 5 diwrnod cyn y cyfarfod. Ar y pwynt hwn gofynnir bod eitemau i'w hystyried yn yr adran Unrhyw Fater Arall yn cael eu hanfon at Glerc yr Is-grwpiau / Gweithgorau. Trafodir yr eitemau hyn yn y cyfarfod mewn cytundeb gyda'r Cadeirydd.

Gall eitemau i'w hystyried gan yr Is-grwpiau / Gweithgor gael eu hanfon ar unrhyw adeg at Glerc yr Is-grwpiau / Gweithgorau am ystyriaeth bellach ac er mwyn cael eu cynnwys ar raglen waith Is-grwpiau / Gweithgorau'r Fforwm Ysgolion, mewn cytundeb â'r Cadeirydd ac wedi trafodaeth bellach / cytundeb gyda'r Is-grwpiau / Gweithgorau lle bod angen.

## 3.7 Cyfrinachedd

Mewn rhai achosion, yn benodol wrth drafod materion yn ymwneud â chytundebau, efallai y bydd gwybodaeth o natur freintiedig neu gyfrinachol yn cael ei rhoi i aelodau'r Is-grwpiau / Gweithgor, eilyddion, arsylwyr ac aelodau o'r gweithgorau er mwyn cynorthwyo eu dealltwriaeth o'r mater dan sylw. Rhaid i aelodau'r Is-grwpiau/ Gweithgorau, eilyddion, arsylwyr ac aelodau o'r gweithgorau gadw cyfrinachedd y materion hynny.

Cofnodir materion o'r fath fel eitemau cyfrinachol yn y cofnodion ac ni ellir eu rhannu.

## 3.8 Datganiadau o Fuddiannau

Rhaid i aelod sydd â budd personol mewn mater ac sydd yn mynychu cyfarfod yr Is-grŵp/ Gweithgor lle trafodir y mater hwnnw, gyhoeddi bodolaeth a natur y budd hwnnw i'r cyfarfod ar ddechrau'r cyfarfod neu ar yr adeg honno pan ddaw'r diddordeb hwnnw'n amlwg.

Dylai aelod ystyried fod ganddynt fudd personol mewn mater petai modd ystyried yn rhesymol y gallai trafodaeth ynghylch y mater effeithio ar lesiant neu ar eu sefyllfa ariannol y nhw ei hunan, perthynas iddynt neu unrhyw waith neu fusnes a gynhelir gan berson o'r fath.

## 3.9 Treuliau

Bydd pob un o dreuliau'r Fforwm yn cael eu talu gan yr awdurdod ac yn dod allan o'r cyllid ysgolion.

Bydd yr awdurdod yn ad-dalu treuliau rhesymol yr aelodau yn unol â’r canllawiau priodol a gyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr Cyllid. Rhaid i bob cais am dreuliau gael eu hanfon at Glerc y Fforwm yn y lle cyntaf.